**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad

16 Mai 2018

Annwyl gydweithwyr

Gwasanaeth rheilffordd newydd Cymru a'r Gororau fydd y contract mwyaf erioed i'w ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd pob aelod y cyfle i gael eu briffio gan Trafnidiaeth Cymru ar y broses yr ydym wedi'i defnyddio a'r canlyniadau yr ydym yn anelu atynt.

Yn ystod y briffio, tynnodd Trafnidiaeth Cymru sylw at y ffaith mai un o'r risgiau yr ydym wedi bod yn ymwybodol ohono yn ystod y broses gaffael yw y gallai cynigydd aflwyddiannus geisio herio ein proses. Er mwyn lleihau'r posibilrwydd, rydym wedi mabwysiadu arfer gorau yn ein dull o gaffael.

Er mwyn lleihau'r risg sy'n bodoli, bydd Trafnidiaeth Cymru a minnau yn dilyn y broses a ddefnyddir gan yr Adran Drafnidiaeth pan fyddant yn dyfarnu contract. Rydym wedi addasu hwn at ein defnydd ni, felly bydd y broses yn cynnwys nifer o gamau:

1. Gwerthuso trylwyr o'r ceisiadau a ddaeth i law yn erbyn y meini prawf gwerthuso y cytunwyd arnynt.
2. Cyfnod o optimeiddio contract i sicrhau bod addewidion ac ymrwymiadau y cynigydd sy'n sgorio uchaf o fewn y contract.
3. Argymhelliad gan Trafnidiaeth Cymru i Weinidogion Cymru, wedi'i ategu gan Achos Busnes Llawn, yn rhoi amlinelliad o'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd.
4. Cyflwyno argymhellion Trafnidiaeth Cymru i Gabinet Llywodraeth Cymru
5. Ar yr amod bod y Cabinet yn cytuno â'r argymhelliad, cyhoeddi enw y cynigydd a ffefrir am 7 y bore ar y diwrnod yn dilyn penderfyniad y Cabinet (hy cyn i'r farchnad stoc agor).
6. Cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog i'r Cynulliad ar yr un pryd. Ni fydd rhagor o fanylion yn cael eu rhyddhau bryd hynny.
7. Cyfnod segur o 10 niwrnod i ganiatáu ar gyfer her cyfreithiol posibl gan y cynigwyr aflwyddiannus

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

8. Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog yn disgrifio gwasanaeth newydd Cymru a'r Gororau i'r aelodau unwaith y daw y cyfnod segur i ben, ar yr amod nad oes her cyfreithiol wedi'i dderbyn.
9. Lansiad ffurfiol ble y caiff manylion cynnig y cynigydd buddugol ei gyflwyno i'r cyhoedd
10. Sesiwn briffio technegol ar gyfer ACau gan Trafnidiaeth Cymru
11. Datganiad Llafar i'r Cynulliad yn disgrifio trefniadau y fasnachfraint newydd, gan roi cyfle i aelodau graffu ar y penderfyniadau unwaith y bydd yr aelodau wedi cael y cyfle i ddeall manylion y gwasanaeth newydd
12. Briffiadau ar gyfer rhanddeiliaid eraill

Fel a bwysleisiwyd eto ddoe gan y Prif Weinidog, mae'r broses gaffael a'r gweithgareddau cysylltiedig yn cadw at y rhaglen fel y gallaf ddyfarnu'r contract. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na fyddaf yn gallu gwneud cyhoeddiad y mis hwn, gyda'r gwasanaethau yn cychwyn ym mis Hydref.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport